# heddwch

gwanwyn 2008
rhif 46

cnd cymru

yr ymgyrch dros ddiarfogi niwclear


# Cymaint i'w ddathlu!

1958–2008 50

**Mae wedi mynd yn groes-graen i'r sefydliad ers degawdau – ac wedi gwneud hynny yn egwyddorol ac yn gwbl benderfynol – ond does dim amheuaeth bellach fod CND yn rhan o fywyd ar yr ynys hon. Pr'un ai eich bod yn ei garu neu'n ei gasáu, mae'n rhan o'r gwleidyddiaeth a'n diwylliant. Ond gall sefydliadau, fel y gwyddom, ffosileiddio a cholli eu pwrpas. A gall eu hanes – a gogoniant neu fethiant eu rhagflaenwyr – bwyso'n drwm ar y cenedlaethau nesaf.**

## Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear

### Y dyddiau cynnar

Ym mis Awst 1945, arafodd UDA y trafodaethau heddwch gyda Japan yn fwriadol, ac yna gollwng bomiau niwclear ar ddinasoedd Hiroshima a Nagasaki, yn rhannol er mwyn arddangos gallu dinistriol yr arfau newydd arswydus yma. Yn niwedd y 1940au a'r 1950au, bu UDA ac yna Rwsia a Phrydain wrthi'n arbrofi ac yna'n datblygu arfau thermoniwclear lawer gwaith mwy pwerus na'r rhai a laddodd fwy na 250,000 o sifiliaid yn Hiroshima a Nagasaki. Wrth i bobl gyffredin arswydo o feddwl y gellid defnyddio arfau niwclear eto, bu llawer o brotestiadau ynglwn â bygythiad profion niwclear i fywydau dynol.

Ym Mhrydain, tyfodd y gwrthwynebiad i arfau niwclear yn sgîl cyhoeddiad y llywodraeth ei bod wedi penderfynu cynhyrchu bom 'hydrogen' (thermoniwlear). Ym mis Tachwedd 1957, cyhoeddodd cylchgrawn y *New Statesman* erthygl, 'Britain and the Nuclear Bomb' gan J. B. Priestley a ddadleuai o blaid rhagoriaeth foesol diarfogi niwclear unochrog, a derbyniodd y cylchgrawn nifer o lythyron cefnogol. Cadeiriodd y Golygydd, Kingsley Martin, gyfarfod o hanner cant o bobl i lansio'r 'Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear'. Cadeirydd pwyllgor gwaith cyntaf CND oedd y Canon Collins, Bertrand Russell oedd y Llywydd, ac roedd hefyd yn cynnwys Richie Calder, James Cameron, Michael Foot, Kingsley Martin, J. B. Priestley a'r Athro Joseph Rotblat. Roedd aelod-sylfaenwyr eraill yn cynnwys Fenner Brockway, E.P. Thompson, A.J.P. Taylor, Anthony Greenwood, a Dora Russell. ☮

Daeth pum mil o bobl i gyfarfod cyhoeddus agoriadol CND yn Central Hall, Westminster ar yr 17eg Chwefror 1958 ac wedi hynny, gorymdeithiodd rhai cannoedd i Downing Street. Roedd cynrychiolwyr o bob rhan o gymdeithas yn bresennol: gwyddonwyr, a oedd yn fwy ymwybodol na neb arall o hyd a lled y peryglon a gynrychiolid gan arfau niwclear, ynghyd ag arweinwyr crefyddol a oedd am wrthwynebu'r drygioni moesol yr oedd arfau niwclear yn ei gynrychioli.

Roedd Cymdeithas y Cyfeillion (y Crynwyr), aelodau o'r Blaid Lafur ac undebwyr llafur yn gefnogol dros ben, ynghyd â phobl a oedd eisoes wedi bod yn rhan o ymgyrchoedd ar lefel leol a gwladol yn erbyn y bom ac yn erbyn profion niwclear, a'r rhai a gawsai eu trefnu gan Bwyllgor Heddwch Prydain, y Pwyllgor Gweithredu Uniongyrchol, a'r Pwyllgor Cenedlaethol dros Ddileu Profion Arfau Niwclear.

Trefnodd CND lawer o wrthdystiadau a gorymdeithiau (i Aldermaston a sefydliadau arfau niwclear eraill) a datblygodd rwydwaith o ganghennau a grwpiau arbenigol. Daeth gorymdaith Aldermaston, logo CND, a'i arwyddair, 'Ban the Bomb' yn eiconau ac yn rhan o ddiwylliant ieuenctid y chwedegau.

Mae'n debyg fod y rhan fwyaf o gefnogwyr CND yn cefnogi'r Blaid Lafur, ac roedd llawer o'i arweinwyr cynnar yn aelodau ohoni, yn gobeithio y byddai'r Blaid Lafur yn cefnogi diarfogi niwclear unochrog – fel y gwnaeth yn ei Chynhadledd ym 1960, uchafbwynt CND ym marn llawer, ar y pryd. Ond gwrthododd Hugh Gaitskell, arweinydd y Blaid Lafur, dderbyn y penderfyniad ac addawodd 'frwydro, brwydro a brwydro eto' i ddileu'r penderfyniad yng nghynhadledd 1961 – ac fe lwyddodd.

Daeth logo CND, a ddyluniwyd ym 1958 gan Gerald Holtom, yn enwog ym mhedwar ban a chael ei ddefnyddio fel 'y symbol heddwch'. Mae'n seiliedig ar y symbolau semaffor rhyngwladol am 'N' a 'D' ('Niwclear' a 'Diarfogi') wedi eu hamgau gan gylch. Gellir hefyd ei weld fel croes a'i breichiau wedi eu gostwng.


Mae'n braf gwybod fod CND wedi mynd heibio i'r hanner canrif heb ormod o hunan-longyfarch na hunan-feirniadaeth eithafol. Mewn gwirionedd, rydym wedi effeithio ar wleidyddiaeth a chymdeithas, ac rydym wedi helpu i ffrwyno rhywfaint ar arfau niwclear a'u defnydd. Dydyn ni ddim wedi mynd â'r maen i'r wal, fodd bynnag, gyda diarfogi niwclear.

Yr hyn sydd gennym yw ymrwymiad di-ildio i'r nod honno, trefniadaeth ymgyrchu gref a nifer gynyddol o gefnogwyr a chynghreiriaid. Mae cydnabyddiaeth eang ym Mhrydain ac mewn gwledydd tramor nad yw arfau niwclear yn dod â diogelwch i neb. Ac mae galw cynyddol ym mhedwar ban am ddiarfogi niwclear. Gan adeiladu ar sail ein degawdau o brofiad – a chan ddysgu gwersi ganddo – rydym yn symud ymlaen yn y cyd-destun newydd yma.

Roedd yr Uwch-gynhadledd Fyd-eang a gynhaliwyd i ddathlu ein 50 mlwyddiant, yn tanlinellu ein llwyddiant. Yn ogystal â gweithredwyr o bedwar ban y byd, croesawyd diplomyddion ac arbenigwyr o'r CU ac o bob rhan o'r byd. Roedd yn cynrychioli cyfarfyddiad meddyliau ar draws rhai ffiniau traddodiadol.

Dyna'r realiti. Nid mater i leiafrif mo diarfogi niwclear bellach, ond y synnwyr cyffredin newydd byd-eang.

**Kate Hudson Cadeirydd CND Prydeinig**




Y ffordd i Aldermaston 1958

☮ **Roedd noddwyr CND ym 1958 yn cynnwys** John Arlott, Peggy Ashcroft, Esgob Birmingham, Dr J.L. Wilson, Benjamin Britten, yr Is-Iarll Chaplin, Michael de la Bédoyère, Bob Edwards AS, Y Fonesig Edith Evans, E.S. Frere, Gerald Gardiner QC, Victor Gollancz, Dr I. Grunfeld, E.M. Forster, Barbara Hepworth, Patrick Heron, y Parch. Trevor Huddleston, Syr Julian Huxley, Edward Hyams, Esgob Llandaf, Dr Glyn Simon, Doris Lessing, Compton Mackenzie, y Gwir Barch. George McLeod, Miles Malleson, Denis Matthews, Syr Francis Meynell, Henry Moore, John Napper, Ben Nicholson, Syr Herbert Read, Flora Robson, Michael Tippett, Vicky, yr Athro C.H. Waddington, a Barbara Wootton.

## y tu fewn:


- ★ Banio'r Bom - digon i'w wneud o hyd!
- ★ Atal Trident
- ★ Atal Trident
- ★ Dadfilwreiddio Cymru
- ★ Cefnogi'r Alban
- ★ Y darlun mwy

# heddwch

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru).**

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

**Croeso i sylwadau, llythyron a erthyglau**

**Golygydd:**
Jill Stallard
01495 773 180
heddwch@cndcymru.org

**Cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk

**Argraffwyd a dosbarthwyd gan:**
Redkite Print
redkiteprint@thefreeflyer.com


ffatri fomiau niwclear prydain

# Ddim yn annibynnol, ddim yn atalydd, ddim yn ddiogel, ddim o'i eisiau

**Mae Sefydliad Arfau Atomig (SAA) Aldermaston neu 'Ffatri Fomiau Niwclear Prydain', wedi ei leoli yn swydd Berkshire yn ne Lloegr. Ers y 1950au mae wedi bod yn ganolog i ddylunio. cynhyrchu, cynnal a chadw ac, yn y man, dadgomisiynu arfau niwclear Prydain.**

Yn ystod 2002, cyhoeddodd AWE plc – y cwmni sydd yn rheoli ac yn elwa ar raglen arfau niwclear Prydain - 23 o ddatblygiadau arfaethedig ar eu safleoedd (sef SAA Aldermaston a sefydliad cyfagos Burghfield). Dywedir wrthym fod angen y cyfleusterau hyn i gynnal ergydion niwclear cyfredol Prydain a'u cadw mewn gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'n amlwg ar sail y lefel o uwchraddio sydd ar y gweill fod a wnelo hyn â chynlluniau i ddatblygu olynydd i'r system arfau niwclear Trident gyfredol Dywedodd y Gweinidog Amddiffyn, Des Browne, ym mis Ionawr eleni ei bod 'yn debyg y bydd yn rhaid penderfynu a ddylem, a sut mae mynd ati i ailwampio'r taflegryn yma neu gael un arall yn ei le yn ystod y Senedd nesaf'. Mae pob cais cynllunio y mae CND Cymru (a llawer o rai eraill) wedi gwrthwynebu iddynt fel pe baent yn cael eu cymeradwyo fel mater o ffurf bron gan Gyngor Berkshire.

### Gwerthwyd i UDA

Ers blynyddoedd, rheolwyd y SAA ar y cyd gan y llywodraeth (drwy gyfranddaliad yn British Nuclear Fuels Cyf), cwmni amddiffyn Lockheed Martin o'r UD, a'r grwp gwasanaethau cefnogi Prydeinig, Serco. Yn awr, bwriedir gwerthu cyfran y llywodraeth yn y SAA fel rhan o gynllun i breifateiddio pob ased niwclear sydd mewn perchenogaeth gyhoeddus. Mae bron yn sicr y bydd y SAA yn y dyfodol o dan reolaeth fwyafrifol yr UD, gan mai'r unig ddau gwmni sydd wedi mynegi diddordeb mewn prynu yw cwmni Fluor a grup Jacobs Engineering o'r UD.

### Rhith


Mae 'braw-atalydd' niwclear 'annibynnol' bondigrybwyll Prydain wedi cael ei redeg dan reolaeth yr UD i raddau helaeth ers ei sefydlu. Yn awr, yn ogystal â rhentu taflegrau Trident gan yr UD, bydd cynhyrchu ergydion niwclear ar eu cyfer o dan reolaeth cwmnïau o'r UD hefyd. Mae rhith 'annibyniaeth' y system Trident yn fwy sigledig nag erioed.

Mae'r cwmnïau a enwyd fel prynwyr tebygol ( yn ogystal â'r cyfranddaliwr presennol Lockheed Martin) yn chwarae rhan flawnllaw yn niwydiant cynhyrchu arfau niwclear yr UD, a hwythau'n rhedeg safleoedd arfau a labordai fel Oak Ridge, Hanford, Sandia a maes profion Nevada. Mae'n siur y gwelir mwy fyth o 'gydweithrediad' rhwng labordai arfau niwclear yr UD a Phrydain.

### Dylanwad

Fel arfer, mae'r llywodraeth yn anfodlon iawn trafod y gwerthiant, gan wrthod hyd yn oed cadarnhau mai dyma'r cwmnïau a fydd yn ymgeisio.

Efallai y dylai wrando ar rybudd y cyn-Arlywydd Eisenhower yn ei araith ffarwel enwog: 'yng nghynghorau'r llywodraeth, dylem ochel yn erbyn caffaeliad dylanwad na ddylent ei gael, boed yn fwriadol neu'n anfwriadol, gan y cymhlyg milwrol-diwydiannol.'




Aldermaston : laser newydd 'Orion'

# Mae'r Bom yn Stopio Yma!

**Sefydliad Arfau Atomig Aldermaston**
**12 hanner dydd ar ddydd Llun y Pasg – 24ain Mawrth**

**Fe'ch gwahoddir chi, eich teulu a'ch ffrindiau i ymuno â gwrthdystiad bywiog, di-drais yn *Aldermaston, yn erbyn datblygiad* cenhedlaeth newydd o arfau niwclear ac i ddathlu 50 mlynedd o brotestio gwrth-niwclear ym Mhrydain.**




gweler: www.cnduk.org

Y Pasg yma yw hanner canmlwyddiant yr orymdaith gyntaf i Sefydliad Arfau Atomig (SAA) Aldermaston – calon oer rhaglen arfau niwclear Prydain – pan gerddodd 10,000 o bobl o Lundain. Mae arnom eich angen chi – a'ch ffrindiau, eich cydweithwyr, eich cymunedau a'ch rhwydweithiau – i helpu i amgylchynu'r ganolfan a chreu gwrthdystiad lliwgar, effeithiol ac anferth.

Gyda phleidlais y senedd ym mis Mawrth 2007 o blaid llongau tanfor niwclear newydd, a gyda'r gwaith o adeiladu cyfleusterau ar gyfer cenhedlaeth newydd o ergydion niwclear ar y gweill yn Aldermaston, mae'n hen bryd anfon neges glir at y llywodraeth fod 50 mlynedd yn hen ddigon!

Tra byddwn yn dathlu pum degawd o ymgyrchu di-baid yn erbyn arfau niwclear, bydd y pwyslais ar y dyfodol, ar ymgyrchu o blaid diarfogi a gweithio gyda'n gilydd i adeiladu mudiad eang a fydd yn mynd o nerth i nerth.

Bydd gan bob clwyd thema wahanol (gweler www.cnduk.org/aldermaston/ am fwy o wybodaeth). Dewch mewn gwis ffansi neu gwisgwch fel y mynnoch: yn eich dillad arferol, ar thema clwyd neilltuol, fel arolygwyr arfau, ymgyrchwyr o'r dyfodol . . . chi biau'r dewis!

Mae'ch angen chi yno. Bydd angen 5,000 o bobl i amgylchynu SAA Aldermaston. Mae pethau'n datblygu ar garlam yn Aldermaston, mae angen i ni symud ein hymgyrchu ymlaen, adeiladu mudiad cryfach byth ac atal datblygiad arfau niwclear newydd.

**MAE'R BOM YN STOPIO YMA!**

## Cludiant o Gymru

**Da chi, cysylltwch â'r bobl isod cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn i drefniadau allu cael eu gwneud ac i ni gael rhyw syniad o faint o lefydd fydd eu hangen – mewn bysys a cheir wedi eu rhannu. Os ydych yn trefnu neu'n gobeithio rhannu cludiant sydd heb ei restru isod, da chi, cysylltwch ag CND Cymru a gallwn roi'r gair o gwmpas.**

**Gogledd Cymru:** O Fangor, posibiliadau i godi pobl ar hyd y ffordd i Wrecsam. Phil Steele a Linda Rogers 01248 490 715 phil_steele@btinternet.com

**Aberystwyth:** 01970 610 185 lotte.reimer@btinternet.com

**Meifod drwy Groesoswallt:** t: 01691 650 527 neu 01938 500 746 e: mgt2800@hotmail.com

**Abertawe:** Jan a Brian Jones t: 01792 830 330 e: b.jones4@btinternet.com

**Caerdydd:** Ray Davies t: 02920 889 514 e: raydavies@caerphilly.gov.uk

**Castell Newydd Emlyn, Caerfyrddin a Crosshands:** Harry Rogers t: 01559 371 201 (m:07799 476 595) e:harry@wildwestwales.com

**Cyrrau (Henffordd) :** 01981 250 835

aberporth

# Canu'n Iach i Ddemocratiaeth

## Cerbydau Awyr Di-beilot dros Orllewin Cymru

**Mae system amddiffyn filwrol gyfrifiadur ddychmygol 'Skynet' yn brif gymeriad yn y gyfres ffilmiau a chwaraeon cyfrifiadur 'Terminator'. Dyma enghraifft ffuglen o ddeallusrwydd artiffisial sy'n dechrau teimlo ac sy'n troi yn erbyn ei greawdwyr. Wrth gwrs, Ffuglen Wyddonol yw hyn, nid rhywbeth sy'n digwydd yn y byd go iawn. Ynte?**

Mae Canolfan ASTRAEA (Asesu a Gwerthuso Technoleg Systemau Annibynnol yn gysylltiedig â Hedfan) yn cael ei sefydlu ym Mharc Aberporth yng Ngheredigion gyda chefnogaeth £3 miliwn o arian cyhoeddus, yn ychwanegol at gost adeiladu'r Parc ei hun. Rhaglen Brydeinig yw ASTRAEA, gyda chefnogaeth a chyllid gan y Cynulliad a llywodraeth San Steffan, ac mae'n cynnwys nifer o gwmnïau arfau fel cwmni Amddiffyn Awyr a Gofod Ewrop (EADS), Qinetiq, Flight Refuelling Cyf, Thales a BAE Systems.



Cerbydau Awyr Di-beilot (CAD)

### Lladd o hirbell

Yn Aberporth, mae Cerbydau Awyr Di-beilot (CAD neu ddrôn) yn cael eu datblygu i nifer o ddibenion, rhai da a rhai amheus dros ben. Mae QinetiQ ar hyn o bryd yn gwneud arbrofion i gydweddu 'deallusrwydd artiffisial' â Cherbydau Awyr Di-beilot. Tra gallai hynny fod i ddibenion heddychlon, mae'n mynd yn destun pryder mawr pan fydd y dechnoleg hon yn cael ei chymhwyso i Gerbydau Ymladd Awyr Di-beilot (CYADau).

Mae dyfodol rhyfel yn mynd i fod dan reolaeth cyfrifiaduron, gyda'r elfen ddynol wedi ei dileu o faes y gad. Gellid cadw rheolaeth ar boblogaethau sifil gan ddronau robotig. Mae rhai dronau wedi eu dylunio fel awyrennau ysbïo a fydd yn cudd-ymchwilio a chasglu gwybodaeth; mae eraill yn cario arfau a bomiau. Mae hyn oll yn cael ei hyrwyddo ag afiaith gan wahanol wleidyddion a gweision sifil fel ffordd berffaith o ddatrys problemau adfywio economaidd gorllewin Cymru.

### Meddyliwch eto

Mae pethau tywyll yn digwydd ym Mharc Aberporth. Pam mae Llywodraeth y Cynulliad mor eiddgar i glosio at y cwmnïau datblygu arfau mawr yma? Dydy gwefan QinetiQ ddim yn ceisio cuddio'r ffaith fod y cwmni'n gysylltiedig â'r rhaglen CYAD ar gyfer y Weinyddiaeth Amddiffyn a bydd yn ymgysylltu â BAE, cyd-bartneriaid yn y project ASTRAEA, sydd â swyddfa ym Mharc Aberporth.

Efallai y dylai'r rheini sydd o blaid maes awyr sifil arfaethedig yn Aberporth feddwl ddwywaith ynglŷn â bod â masnachwyr arfau ac arbenigwyr arfau rhyngwladol yn hedfan i mewn ac allan o faes awyr yng ngorllewin Cymru. Mae'n hen bryd i'r AM Llafur Newydd Andrew Davies, y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus, ddechrau deall mai democratiaeth yw Cymru. ac nad yw pobl Cymru am gael eu dallu a'u twyllo gan sbin a'r ystrywiau cuddio a chelu sy'n gysylltiedig â llywodraeth San Steffan.

Er gwaethaf y 'buddsoddiad' anferth yma, nodwyd ym mis Mai fod Parc Aberporth yn dal bron yn hanner gwag fwy na 18 mis wedi iddo agor. Roedd Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi y byddai mwy na 230 o swyddi'n cael eu creu erbyn 2008 gyda'r posibilrwydd o gyflogi hyd at 1,000 arall. Mae gan Selex (Sensors and Airborne Systems), busnes electroneg amddiffyn ail fwyaf Ewrop, un uned ar y safle. Roedd 'gwybodaeth arbenigol' EADS, QinetiQ, Flight Refuelling Cyf, Thales a BAE Systems yn mynd i gael ei chyfuno gyda g eiddo adrannau prifysgol yn Aberystwyth a Chaerdydd i greu mwy fyth o swyddi. Mae'r Parc bellach yn faes ymarfer i rai sy'n dysgu gyrru ac mae golwg anniben ar yr holl dir o gwmpas.

Fel y gwyddom, y sefyllfa ddelfrydol ar gyfer gwneud elw yn y cymhlyg milwrol diwydiannol yw 'rhyfel di-derfyn'. Mae pobl yng Nghymru yn disgwyl gwell ac am wybod fod diwydiant yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio i ddibenion amgen na bod yn rhan o strategaeth filwrol i dra-arglwyddiaethu ar y byd dan arweiniad yr UD y mae George W Bush, Tony Blair, Rhodri Morgan, ac yn awr, Gordon Brown oll yn rhan ohoni.

**Harry Rogers**

**heddweithredu: Nid dyma'r Gymru a ddymunwn!**

**Sgrifennwch at eich AC i ofyn pam mae arian yn cael ei wario ar ddatblygiadau anghynaliadwy yn Aberporth, a pham mae arian yn cael ei ddefnyddio i ddenu cwmnïau arfau fel BAE, y gwyddys ei fod wedi cyflawni nifer fawr o droseddau corfforaethol. Gellid creu swyddi go iawn, parhaol drwy fuddsoddi mewn cwmnïau lleol, cynaliadwy ac egwyddorol.**

**Ymunwch â'r ymgyrch i atal y buddsoddi anfoesol hwn mewn arfau yng Nghymru, ac i addasu Aberporth i ddibenion heddychlon. Cysylltwch â Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bro – d/o Harry Rogers e: harry@wildwestwales.com**

sain tathan

# Arfau Allan o'r Brifysgol Agored

**Cafodd swyddfa'r Brifysgol Agored (BA) yng Nghaerdydd ei phicedu fel rhan o'r Diwrnod Gweithredu Cenedlaethol o Blaid Buddsoddi Egwyddorol gan Brifysgolion ym mis Chwefror.**

Mae'r BA yn bartner allweddol ym Metrix, y Consortiwm a gafodd gytundeb gwerth £10 biliwn gan y Weinyddiaeth Amddiffyn i adeiladu a rhedeg yr academi hyfforddi filwrol arfaethedig yn Sain Tathan ym Mro Morgannwg. Y bwriad yw y bydd y BA yn dilysu cyrsiau'r Academi. Siaradodd Cyfarwyddydd y BA yng Nghymru, Rob Humphreys, â dirprwyaeth o brotestwyr a chytunodd i gyfleu eu pryderon i awdurdodau'r BA.


Mae Undeb y Prifysgolion a'r Colegau (UPC) yng Nghymru wedi pasio cynnig sy'n gwrthwynebu cytundeb PFI Metrix i sefydlu'r Academi Hyfforddiant Milwrol yn Sain Tathan, a felly hefyd yr undeb sy'n cynrychioli'r staff hyfforddi, PCS. Ar y diwrnod gweithredu, gwisgodd myfyrwyr Coleg Prifysgol Llundain fel gwerthwyr arfau a gwerthu arfau ffug, ac ym Mhrifysgol Caerhirfryn, mynychodd y myfyrwyr ddadl awyr-agored a phleidleisio'n llethol yn erbyn cysylltiadau gyda BAE Systems. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae sefydliadau yn cynnwys Prifysgol Cymru, Bangor a'r Ysgol Astudiaethau Dwyreiniol ac Affricanaidd (SOAS) yn Llundain wedi gwerthu eu buddsoddiadau mewn cwmnïau arfau ar ôl ymgyrchoedd gan fyfyrwyr a staff.




**heddweithredu: Cynhaliwyd digwyddiadau cydgysylltiedig mewn colegau a phrifysgolion ledled Cymru i brotestio yn erbyn buddsoddiadau prifysgolion mewn cwmnïau arfau a chyfranogiad cwmnïau arfau mewn ymchwil academaidd. Cysyllter ag Andy e: andy@caat.org.uk**

# Peidiwch â chael eich twyllo

Yr unig ffordd y gellir honni fod cynhyrchu trydan drwy orsafoedd ynni niwclear yn agos at fod yn 'garbon niwtral' yw drwy anwybyddu'r carbon deuocsid a gynhyrchir gan y broses o fwyngloddio, cludo, a chyfoethogi wraniwm, adeiladu gorsafoedd pwer a safleoedd i storio gwastraff (am gyfnod amhenodol). Ar ben hynny, mae gorsafoedd pwer niwclear yn dibynnu ar argaeledd wraniwm – adnodd y mae llai a llai ohono ar gael. Os mai pwer niwclear yw'r ateb, dydyn ni ddim yn gofyn y cwestiwn iawn.



## Rhyfeloedd yn esgor ar ryfel


Mae'r Mudiad er Dileu Rhyfel (MAW) yn gweithio i dynnu sylw at y ffordd y mae militariaeth a rhyfel yn cyfrannu ar effeithiau cynhesu byd-eang. Nid yn unig y bydd gwrthdaro'n cynyddu wrth i bobl gael eu gorfodi i ymfudo wrth i economïau ac adnoddau gael eu dihysbyddu; bydd y gwrthdrawiadau hynny, oni cheir hyd i ffyrdd di-drais o ymdrin â nhw, yn gwaethygu'r sefyllfa. Yr unig ateb yw cydweithrediad.
I chwarae rhan yn yr ymgyrch, cysyllter â MAW: t: 01908 511 948
www.abolishwar.org.uk

## SOCPA yn hynod effeithiol

Cynhaliwyd 67 o wrthdystiadau/digwyddiadau yn Sgwâr y Senedd yn 2005, 341 yn 2006 a 963 yn 2007. 2007 oedd y flwyddyn lawn gyntaf y bu darpariaethau adran 132 o Ddeddf Troseddau Difrifol a Chyndrefnol a Heddlu (SOCPA) 2005 mewn grym, sy'n cyfyngu ar brotestio yn Sgwâr y Senedd. (Ffynhonnell: Cynulliad Llundain Fwyaf)

## Rhy ddrud i'w fesur

Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio'r Llywodraeth Brydeinig adroddiad sy'n dangos y bydd dadgomisiynu'r genhedlaeth gyntaf o orsafoedd niwclear afiach a llygredig yn costio llawer mwy nag amcangyfrif yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear (ADN). Mae'r amcangyfrif o £56 biliwn yn 2005 wedi codi yn awr i £73 biliwn. Yn ychwanegol at hynny, daethpwyd o hyd i broblemau annisgwyl gyda gwastraff, yn Sellafield yn bennaf, a olygodd y bu'n rhaid dargyfeirio arian oddi wrth waith dadgomisiynu a glanhau arall (fel yr holltau mewn adweithyddion Magnox). Cyfrifoldeb yr ADN yw cael gwared â thomen wastraff hanesyddol y DU, yr amcangyfrifir y bydd yn costio £10-20bn arall.
Sefydlwyd yr AND yn 2005 i sicrhau fod y gorsafoedd niwclear Prydeinig cyntaf yn cael eu dadgomisynu mewn modd glân a diogel, yn ogystal â'u rhedeg tan ddiwedd eu 'hoes' gynhyrchu ddisgwyliedig. Mae'r Wylfa yn un safle o'r fath sydd i gael ei ddadgomisiynu. Ac eto, mae'r llywodraeth yn dal i gefnogi adeiladu adweithyddion niwclear newydd er nad oes ateb ar gael i broblem storio gwastraff niwclear. Mae trethdalwyr Prydain eisoes wedi talu miliynau o bunnau i gwmnïau ynni preifat, ac mae'n edrych yn debyg y byddant yn talu biliynau eto.
(ffynhonnell: www.greenpeace.org.uk)




bomiau clwstwr

# Myfyrwyr yn gweithredu i atal lladd di-wahân

**Bob blwyddyn mae cannoedd o sifiliaid yn marw oherwydd gwrthdaro treisgar cyfredol ac oherwydd etifeddiaeth gwrthdaro blaenorol. Menywod a phlant yw tri o bob pedwar sy'n cael eu lladd. Er gwaethaf dyfarniadau rhyngwladol i geisio lleihau nifer y marwolaethau a'r anafiadau, mae arfau sydd yn lladd yn ddi-wahân ac sydd ag effeithiau tymor-hir yn dal i gael eu cynhyrchu a'u defnyddio. Mae ffrwydron clwster ymhlith y gwaethaf o'r arfau hyn.**

Mae dwy ran i'r ffrwydron clwstwr hyn: casyn allanol, a channoedd o is-ffrwydron o'i fewn. Bydd y casys allanol yn agor yn yr awyr gan ledaenu'r ffrwydron di-gyfeiriad dros arwynebedd o hyd at gilometr sgwâr. Bydd y rhain yn ffrwydro wrth daro yn erbyn unrhyw beth, boed yn sifiliaid neu filwyr. Ni fydd llawer ohonynt yn ffrwydro ar unwaith gan adael yr hyn sy'n edrych fel melysion neu deganau bach lliwgar ar lawr i bobl eu codi ac achosi iddynt ffrwydro flynyddoedd yn ddiweddarach



**Ymbweru**

Daeth myfyrwyr Coleg Unedig y Byd yn Sain Dunwyd ym Mro Morgannwg (Coleg Iwerydd) yn ymwybodol o'r erchylltra yma ym mis Tachwedd y llynedd wrth wrando ar ddarlith gan enillydd Gwobr Heddwch Nobel, Ray McGrath. Gan deimlo fod yn rhaid iddynt ymuno ag ymgyrch y Glymblaid Ffrwydron Clwster, sefydlodd y myfyrwyr grwp ar fyrder i hyrwyddo'r mudiad ymhlith Colegau Unedig y Byd.

Meddai Amit Meyer, un o arweinwyr yr ymgyrch sy'n fyfyriwr yng Ngholeg Iwerydd: 'Fel aelodau o Golegau Unedig y Byd, sy'n credu yn eu gwerthoedd, roeddem yn teimlo fod yn rhaid i ni wneud rhwybeth ynglwn â hyn. Rydym yn mynd i wneud popeth o fewn ei gallu i helpu'r ymgyrch a helpu i achub bywydau.'

**Galwad Ryngwladol**

Mewn datganiad, mynegodd y myfyrwyr eu gofid ynglwn â defnydd ffrwydron clwstwr, gan alw ar lywodraethau'r byd i atal eu cynhyrchu a helpu i glirio ardaloedd llygredig. Mae myfyrwyr a staff Coleg Iwerydd wedi pleidleisio'n unfrydol i dderbyn y datganiad hwn. Bydd y datganiad yn awr yn cael ei anfon ymlaen at yr un ar ddeg Coleg arall i geisio eu cefnogaeth.

**Kathryn Linthicum**

**heddweithredu: Am fwy o wybodaeth, ac i addo cefnogaeth i'r ymgyrch fyd-eang yn erbyn ffrwydron clwster, gweler www.stopclustermunitions.org**

**Datganiad Coleg Iwerydd**

Yr ydym ni, aelodau mudiad Colegau Unedig y Byd, yn galw am gytundeb rhyngwladol yn 2008 wedi ei arwyddo gan holl genhedloedd y byd, i wahardd cynhyrchu, defnyddio a storio ffrwydron clwstwr ym mhedwar ban y byd, i glirio ardaloedd llygredig, ac i ddarparu cymorth i ddioddefwyr. Credwn fod defnyddio ffrwydron clwster yn tramgwyddo hawliau dynol yn sylfaenol oherwydd y canlyniadau arswydus, di-wahân a thymor-hir i boblogaethau sifil. Rydym yn addo ein cefnogaeth i'r ymgyrch yn erbyn ffrwydron clwster ac yn *ffieiddio* cyflwr meddwl a chyflwr moesol llywodraethau sydd yn dilysu eu defnydd..
Mae 84 o wledydd yn cyfranogi ym Mhroses Oslo sy'n ceisio sicrhau cytundeb i *wahardd bomiau clwster*.
Byddant yn cwrdd nesaf yn Nulyn o'r 19eg i'r 30ain o Fai.

## Angen!
## Meiri Cymru dros Heddwch



**Fwy na hanner can mlynedd wedi gollwng bomiau niwclear yr UD ar Hiroshima a Nagasaki, mae miloedd o ddinasyddion yn dal i ddioddef effeithiau deifiol ymbelydredd a phoen meddwl dibendraw. Mae dinasoedd Hiroshima a Nagasaki ers hynny wedi ymdrechu i ddweud wrth y byd am greulondeb annynol arfau niwclear, ac wedi dadlau'n gyson y dylid dileu arfau niwclear.**

Menter a lansiwyd gan faer Hiroshima yn 2003 yw Meiri dros Heddwch, i Hyrwyddo Cydgadernid Dinasoedd o blaid Llwyr Ddileu Arfau Niwclear. Mae mwy na 2,028 o aelodau mewn 127 o wledydd, yn cynnig ffordd i drefi a dinasoedd oresgyn ffiniau cenedlaethol a gweithio ynghyd i bwyso am ddileu arfau niwclear. Mae meiri diweddarach Hiroshima a Nagasaki wedi galw ar feiri ym mhedwar ban y byd i gefnogi'r rhaglen yma.
Dim ond 46 cyngor lleol ym Mhrydain sydd wedi ymuno hyd yn hyn. Yn anffodus, dydy aelodaeth Cymru ddim wedi adlewyrchu twf byd-eang Meiri dros Heddwch. Y Bala, Yr Wyddgrug a Gwynedd yw'r unig awdurdodau sydd wedi cofrestru. Gobaith Meiri dros Heddwch yw denu un aelod newydd bob wythnos yn y flwyddyn nesaf.

**heddweithredu: mae CND Cymru wrthi'n cysylltu â phob awdurdod lleol a maer yng Nghymru yn gofyn am eu cefnogaeth, ond mae'n amlwg y bydd llythyr gan drigolion lleol yn dwyn mwy o bwysau. Mae mwy o wybodaeth ynglwn â'r ymgyrch ar gael yn www.mayorsforpeace.org Os hoffech help i lunio llythyr at arweinydd neu gadeirydd eich awdurdod lleol neu faer eich tref neu fwrdeistref, cysylltwch ag CND Cymru (gweler tud. 8).**

## Cerddorion yn Erbyn Arfau Niwclear Cymru

Ers 25 mlynedd, mae Cerddorion yn erbyn Arfau Niwclear (MANA) wedi bod yn trefnu cyngherddau dros heddwch. Mae ganddo uned weinyddol fechan yn Llundain ac mae wedi derbyn cymorth hael gan gerddorion, rhai yn fyd-enwog, sydd wedi cyfrannu eu doniau. Mae'r mudiad heddwch yn Lloegr wedi elwa'n fawr iawn, nid yn unig yn ariannol ond drwy ennill cefnogaeth hefyd. Bydd gweithredydd dros heddwch yn annerch y gynulleidfa ar bob achlysur.
Mae wedi bod yn anodd trefnu digwyddiadau yng Nghymru, mor bell i ffwrdd o Lundain, ac mae gennym wrth gwrs ein traddodiad cerddorol unigryw ein hunain, yn seiliedig ar yr iaith Gymraeg.
Ym mis Ionawr, cymeradwyodd pwyllgor MANA sefydlu chwaer fudiad yng Nghymru. Yn ddiau, mae posibiliadau mawr o ran cefnogaeth i'n mudiad heddwch ac i CND Cymru yn enwedig, gan bob math o gerddorion a cherddoriaeth. Mae Denis O'Neal, Caryl Parry Jones a Frankie Armstrong eisoes yn fodlon helpu, ond nes i ni ddod o hyd i wirfoddolwr â'r profiad a'r medrau i weinyddu'r mudiad, fydd dim byd yn gallu digwydd. A allwch chi awgrymu enw rhywun y gallwn fynd ar ei g/ofyn, sy'n siarad Cymraeg yn ddelfrydol ond nid o anghenraid, a allai drefnu cyngherddau, datganiadau a gigiau dros heddwch? **Da chi, meddyliwch o ddifri am y peth, a chysylltwch â fi ar**
**e: georgecrabb@ybontfaen.freeserve.co.uk**
**t: 01446 774 452.** **George Crabb**

# Rhwystro'r Ffordd yn Hebron



Mae cadeirydd CND Cymru Jill Evans ASE, wedi ymweld â Phalesteina sawl gwaith fel aelod y Senedd Ewropeaidd o Ddirprwyaeth Perthynas gydag Awdurdod Palesteina. Yn ystod ei ymweliad mwyaf diweddar, cyfarfu â staff meddygol Ysbyty Shifa yn Gaza, a esboniodd iddi effeithiau y gwarchae Israelaidd ers Mehefin 2007.

Mae'r diffyg cyffuriau sydd ar gael yn golygu bod cleifion canser yn gorfod cael eu hanfon i Israel, ond mae llawer o'r cleifion hyn yn cael eu gwrthod yr hawl i deithio. Roedd yr ysbyty yn defnyddio generaduron oherwydd bod y trydan wedi cael ei ddatgysylltu, a rodd cyflenwadau tanwydd yn iedwino.

Mae effeithiau'r diffodd trydan ar gleifion gofal arbennig a'r 30 babi wedi'u geni cyn eu amser yn amlwg - maent yn dibynnu ar y cyflenwad trydan i gadw'r deoryddion i weithio.

Mae'r sefyllfa yn Gaza yn un enbydus ac wedi gwaethygu yn yr wythnos ddiwethaf, gyda mwy na 100 o bobl Palesteina wedi'u lladd. Mae'r argyfwng hiwmanitaraidd yn waeth nac erioed. Mae'r sefyllfa ym Mhalesteina ar fin cyrraedd torbwynt. Mae'n rhaid gweithredu ar lefel rhyngwladol er mwyn codi'r gwarchae ar Gaza, dod â'r feddiannaeth i ben ac ail-ddechrau'r trafodaethau heddwch.

sir benfro ac israel

## Grwp heddwch newydd yn croesawu New Profile

**Anerchwyd cyfarfod agoriadol Grwp Heddwch De Penfro, a fynychwyd gan fwy na 100 o bobl ym mis Ionawr, gan yr Athro Talila Kosh Zohar o'r mudiad heddwch Israeli, New Profile.**

Mae New Profile yn gweithio i ddadfilwreiddio cymdeithas Israel, rhoi terfyn ar feddiant Israel ar y tiroedd a oresgynwyd ym 1967, a symud at fod yn gymdeithas sifil gydradd yn hytrach nag un sy'n derbyn gorfodaeth filwrol yn oddefol. Soniodd Talila am y ffordd mae diwylliant Israel yn normaleiddio rhyfel a'r lluoedd arfog, a nodi'r ffyrdd y mae'r diwylliant yn 'meithrin edmygedd at rym a chryfder corfforol', gan glodfori dinasyddion Iddewig tra'n dibrisio bywydau dinasyddion Arabaidd. Mae milwyr a lifrai milwrol yn gyffredin ar strydoedd Israel ac mae milwreiddio yn dechrau'n ifanc; mae traddodiad hyd yn oed mewn ysgolion meithrin o gael plant bach i anfon anrhegion at filwyr ar wasanaeth. Mae aelodau New Profile wedi bod yn gweithio i annog mwy o rieni i ofyn i athrawon a all eu plant anfon anrhegion at blant mewn ysbytai yn lle hynny. Ond mae hyd yn oed gweithred fechan o wrthsafiad fel hyn yn anodd yn Israel.

Mae New Profile yn trefnu 'sioe deithiol' i helpu Israeliaid ifanc i drafod y syniad tabw o wrthod gwasanaethu yn y fyddin, ac mae'n cynnig gwybodaeth, cefnogaeth foesol a chymorth cyfreithiol i wrthwynebwyr cydwybodol a'u teuluoedd. Estynnodd AC Canolbarth a Gorllewin Cymru, Alun Davies, groeso i Talila, a siaradodd Cadeirydd CND Cymru, Jill Evans ASE, am ei gwaith dros heddwch a chyfiawnder yn y Dwyrain Canol.

www.newprofile.org
Grwp Heddwch De Penfro: redpath@xifos.co.uk

wrecsam a bangor

## Ymgyrchu ymarferol

**Cynhaliwyd dau o blith y cannoedd o weithredoedd i gefnogi'r ymgyrch ryngwladol, 'Hands Off Iraqi Oil', yng Nghymru ar y 23ain o Chwefror.**

Yn Wrecsam, cyfarfu aelodau Fforwm Heddwch a Chyfiawnder Wrecsam a Menywod dros Heddwch Wrecsam wrth garej Shell yn y dref i arddangos baneri a phosteri a dosbarthu taflenni.

Rhedodd Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor stondin yng nghanol y dref a chynnig gwybodaeth i siopwr a phobl leol. Roedd y ddwy weithred yn cefnogi pobl a gweithwyr olew Irac, sy'n ceisio cadw olew Irac o dan reolaeth Irac yn wyneb pwysau i dderbyn 'deddf olew' newydd a fydd yn caniatáu i gwmnïau tramor fel Shell, BP ac Exxon i reoli cynnyrch oleu Irac gan wneud elw anferth i gwmnïau olew Gorllewinol a gadael gweithwyr olew Irac mewn tlodi.

Dywedodd Genny Bove o FfHCW a Menywod dros Heddwch Wrecsam: 'Wedi blynyddoedd o sancsiynau a niweidiodd Iraciaid cyffredin ac arwain at farwolaeth hanner miliwn o blant Irac, cefnogodd y llywodraeth Brydeinig oresgyniad 2003 a arweiniodd at farwolaeth miliwn arall o bobl. Ni allwn droi o'r neilltu tra bod adnoddau economaidd mwyaf gwerthfawr Irac yn cael eu gwerthu i eraill. Mae'r baneri a arddangoswyd gennym ddydd Sadwrn - 'Irac i'r Iraciaid' a 'Dim Elw o Ryfel' yn disgrifio ein teimladau.'.

**http://wpjf.blogsome.com/**

**Cysylltwch â: Fforwm Heddwch a Chyfiawnder Wrecsam (sydd â llythyr newyddion mae'n werth tanysgrifio iddo – ble bynnag rydych yn byw) e: wrexhamsaw@yahoo.com Fforwm Heddwch a Chyfiawnder Wrecsam, Blwch SP 661, Wrecsam LL11 1QU. Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor, t: 01248 490 715 e: phil_steele@btinternet.com**

## Wythnos Heddwch

Cytunwyd i gynnal Dydd Heddwch Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig gan Gynulliad Cyffredinol y CU ym 1981. Mae'n cael ei ddathlu ar Fedi'r 21ain bob blwyddyn ac mae'n galw ar bobl i gofio ffolineb ac arswyd rhyfel ac i ailymrwymo i weithio dros heddwch. Ers 2001, bu galw hefyd am ddiwrnod llawn o heddwch a chadoediad ledled y byd ar Fedi'r 21ain ac mae'r diwrnod arbennig yma yn cyd-daro ag agoriad Cynulliad Cyffredinol y CU bob blwyddyn pan fydd 'Cloch Heddwch' yn cael ei chanu ym mhencadlys y CU. Mae'r gloch hon wedi ei bathu o ddarnau o arian a gyfranwyd gan blant o bob cyfandir, ac mae'n symbol o undod byd-eang. Fe'i rhoddwyd gan Japan, a chyfeirir ati fel 'atgof o gost dynol rhyfel'. Mae'r arysgrif arni yn dweud: 'Hir oes i heddwch byd-eang llwyr'. Mae'r Dydd Heddwch Rhyngwladol yn cael ei ddathlu ym hob gwlad yn mhedwar ban y byd. Pan oedd yn y swydd, gofynnodd y cyn-Ysgrifennydd Cyffredinol Kofi Annan i holl adrannau ac asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig i roi mwy o sylw i'r dydd, gan estyn gwahoddiad arbennig i gymdeithas sifil a chynnal 'Munud o Ddistawrwydd' am hanner dydd.

Cynhelir digwyddiad i ddathlu'r Dydd Heddwch Rhyngwladol bob blwyddyn yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd pan wahoddir plant ysgol i fwynhau diwrnod o ddigwyddiadau arbennig. Y llynedd, cynhaliwyd digwyddiad Dydd Heddwch Ryngwladol i blant yng Nghanolfan Gelfyddydau Chapter yng Nghaerdydd hefyd. Bydd gwobrau'r Mala Heddwch yn cael eu cyflwyno yn ystod yr wythnos hon hefyd.

**heddweithredu:**

**Gwneir apêl ar i eraill ymuno a chynnal digwyddiadau ledled Cymru, ddim ar y dydd ei hun o anghenraid, ond yn ystod yr wythnos sy'n arwain ar yr 21ain neu'n ei ddilyn. Os ydych yn trefnu digwyddiad ar gyfer Dydd Rhyngwladol heddwch neu'n helpu i ddatblygu 'Wythnos Heddwch Cymru', da chi, cysylltwch â George Crabb e: georgecrabb@ybontfaen.freeserve.co.uk t: 01446 774 452. www.internationaldayofpeace.org**

cymdeithas y cymod

## Rhoi terfyn ar filwreiddio Cymru

Ar ddiwedd 2007, cynhaliodd Cymdeithas y Cymod ei gwylnos flynyddol yng Nghaerdydd, gan alw am ddileu'r cynlluniau ar gyfer academi filwrol arfaethedig Sain Tathan. Gwahoddwyd Dr. Stuart Tannock i sôn am yr academi. Dywedodd wrth aelodau'r Gymdeithas, ffrindiau ac ymwelwyr fod Raytheon, un o'r partneriaid yng nghonsortiwm preifat Metrix consortium a fydd yn adeiladu ac yn rhedeg yr academi, hefyd yn gwneud systemau tanio ar gyfer arfau, yn cynnwys bomiwau clwster. Dywedodd fod y ffaith fod y Prif Weinidog, Rhodri Morgan, wedi croesawu'r academi filwrol yn cwbl groes i bolisi'r Cynulliad o adeiladu Cymru gynaliadwy. 'Cymru yw un o ardaloedd mwyaf milwrieddiedig Prydain' meddai'r Parch. Guto Prys ap Gwynfor. 'Ein nod fel Cymdeithas yw ymgyrchu dros ddadfilwreiddio Cymru drwy wneud y cyhoedd yn fwy ymwybodol o'r sefyllfa', meddai. 'Mae hyd yn oed yr awyr yng Nghymru yn gylchfa filwrol. Un o'r gorchwylion cyntaf fydd gweithio i atal milwreiddio pellach, fel adeiladu academi filwrol Sain Tathan.' Cynhaliwyd gwasanaeth dros heddwch yn Eglwys Sain Tathan ac atgoffodd Dr. Wyn James yr aelodau fod Bro Morgannwg yn lleoliad dwy academi Gristnogol enwog yn ystod yr Oesoedd Tywyll. Dywedodd fod yr academïau hyn wedi hyfforddi cenhadon a deithiodd ledled Ewrop i droi pobl at Grist, ond y byddai'r academi filwrol arfaethedig yn hyfforddi pobl yng nghelfyddyd lladd eu cyd-ddyn ym mhedwar ban y byd.

aberystwyth

## Codi llais



Aeth Fforwm Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth allan ar y strydoedd i dynnu sylw at y ffordd y mae'r Ddeddf Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol a'r Heddlu yn bygwth ein rhyddid i brotestio. Rhedodd y grwp stondin yng nghanol y dref a gofyn i bobl leol fynegi eu protest eu hunain drwy sgrifennu ar ddalennau mawr o bapur a'u harddangos o gwmpas y dref. Roedd gan y stondin wybodaeth am y ddeddfwriaeth arfaethedig ac roedd yn cynnig cyfle i bobl gymryd rhan yn y broses ymgynghori. Cafodd ffilm Mark Thomas, 'Serious Organised Criminal' ei dangos yn ddiweddarach yn y Morlan.

**Cysyllter â: Lotte Reimer, Banc y Môr, Blaenplwyf Aberystwyth SY23 4DW t: 01970 610 185 m:07775 801 691 e: lotte.reimer@btinternet.com**

'star wars'

# Brawd mawr, clec fawr

**Ym mis Chwefror, hawliodd y Pentagon ei fod wedi taro lloeren filwrol a oedd yn disgyn o'r awyr â thaflegrau rhyng-gipio a dinistrio Aegis y Llynges. Gwnaeth llywodraeth China yr un fath yn 2007. Mae'r Rhwydwaith Byd-Eang yn erbyn Arfau a Phwer Niwclear yn y Gofod wedi condemnio hyn fel dim byd mwy na chyfle i brofi technoleg arfau gwrth-loeren newyd (ASAT).**

Dywedodd Bruce Gagnon, Cyd-drefnydd y Rhwydwaith Byd-eang fod llywodraeth Bush wedi gorddweud y perygl 'er mwyn cyfiawnhau arbrofi â thechnolegau rhyfel gofod newydd peryglus a phryfoclyd . . . ar adeg pan ddylem i gyd fod yn cwtogi ar brofion ASAT sy'n creu sbwriel yn y gofod, mae'r prawf yma'n agor y drws i ras arfau ofod newydd.'

Ers blynyddoedd mae Rwsia a China wedi rhoi cynnig ger bron Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn galw am gytundeb i wahardd arfau yn y gofod. Mae'r UD ac Israel wedi pleidleisio yn erbyn y cytundeb bob blwyddyn tra bod pob cenedl arall yn y byd yn cefnogi gwaharddiad cyfreithiol newydd ar arfau gofod. Mae Rwsia a China yn deall fod y Pentagon yn symud tuag at 'reoli a thra-arglwyddiaethu' ar y gofod, a bod 'rheolaeth ar y gofod' yn golygu rheolaeth ar y blaned islaw.

Mae diwydiant awyrofod yr UD wedi dweud mai Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol (NMD) fydd y project diwydiannol mwyaf yn hanes y ddaear a'u bod yn bwriadu cymryd arian o 'raglenni hawliadau' i dalu amdano. Yn swyddogol, mae rhaglenni hawliadau'r UD yn golygu Nawdd Cymdeithasol, Medicaid, Medicare, a'r hyn sydd ar ôl o'u rhaglen les. Cynnydd cymdeithasol neu ras arfau yn y gofod? Pa un fyddai pobl yr Unol Daleithau yn ei ddewis? Fel sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r byd, mae gwleidyddion a gwneuthurwyr arfau yn cuddio'r gwirionedd tan gochl addewidion o swyddi da.

Unig werth positif y 'prawf' arfau gwrth-loeren yma yw ei fod wedi gosod y mater ger bron pobl y byd. Rydym yn sefyll ar ymyl dibyn yn gwylio datblygiad ras arfau newydd ddrud a pheryglus o flaen ein llygaid. Y peth gorau i ni fyddai camu'n ôl, anadlu'n ddwfn a bwrw ati i atal y peth yn y fan a'r lle. Rhaid i ni wrthwynebu'r ymdrech i filwreiddio'r gofod.

**heddweithredu: mae'n edrych fel pe bai 2008 yn mynd i fod yn flwyddyn allweddol yng nghynlluniau'r UD i ddatblygu NMD. Mae cynigion i osod taflegrau yng Ngwlad Pwyl a systemau radar yn y Weriniaeth Siec yn wynebu gwrthwynebiad enfawr ac mae'r ddwy lywodraeth yn cael eu gorfodi i ailasesu eu cefnogaeth i'r rhaglen. Cynhelir pleidlais yn y Wreriniaeth Siec ym mis Mehefin ac mae llywodraeth Gwlad Pwyl yn ailasesu ei pherthynas â Rwsia yng ngoleuni'r tensiynau y gallai presenoldeb 'taflegrau rhyng-gipio' yr UD ar dir Pwylaidd eu hachosi. Mae'r llywodraeth Brydeinig wedi ymrwymo Menwith Hill a Fylingdales yn swydd Efrog i system NMD Yr UD.**

**Sgrifennwch at eich AS a gofynnwch iddo/iddi weithio i atal y llywodraeth Brydeinig rhag cefnogi'r cynlluniau hyn a fyddai'n gwneud Prydain yn darged trawiad-cyntaf i unrhyw elyn ymosodol i'r UD. Gofynnwch iddyn nhw i alw ar y llywodraeth Brydeinig i 'fynnu' fod llywodraeth yr UD yn ymuno yn y negydu i sicrhau gwaharddiad ar arfau yn y gofod.**

**Mae gan y Rhwydwaith Byd-Eang yn erbyn Arfau a Phwer Niwclear yn y Gofod aelodaeth o fwy na 140 o grwpiau heddwch o bedwar ban y byd. www.space4peace.org**

yr alban ddi niwclear

# Trident allan o'r Alban

**Mae llywodraeth yr Alban wedi sefydlu grwp o arbenigwyr i ystyried y ffordd orau o gael gwared o arfau niwclear. Gwelir y grwp, dan gadeiryddiaeth Bruce Crawford ASA, y Gweinidog Busnes Seneddol, gan lawer fel cam allweddol tuag at wneud yr Alban yn wlad ddi-niwclear.**

Mae'n cynnwys arweinwyr crefyddol, pobl academaidd, gweithredwyr, cyfreithiwr ac undebwr llafur, a'u gorchwyl fydd dod o hyd i ffyrdd cyfreithiol, cynlluniol, rheolaethol a diplomatig o atal y cynllun i gael olynydd i'r system arfau niwclear Trident ar afon Clud..

Dywedodd Bruce Crawford: 'Mae'n iawn i ni ystyried sut i godi dadleuon yr Alban gyda'r llywodraeth Brydeinig. Y gwir amdani yw fod mwyafrif o ASau yr Alban yn erbyn mab Trident, mae mwyafrif o ASAau yn erbyn mab Trident, ac mae mwyafrif clir o Albanwyr, yn y naill arolwg ar ôl y llall, yn erbyn mab Trident.'

Mae'r grwp o 13 yn cynnwys y Parch Dr David Sinclair, Eglwys yr Alban; John Deighan, yr Eglwys Babyddol; Osama Saeed, Sefydliad Islamaidd yr Alban; yr Athro William Walker o Ysgol Cysylltiadau Rhyngwladol Prifysgol St Andrews, a Dr Rebecca Johnson o Sefydliad Acronym ar gyfer Diplomyddiaeth Diarfogi. Bydd Dr Richard Dixon, cyfarwyddydd WWF yr Alban, David Moxham o TUC yr Alban, Gillian Slider o Senedd Ieuenctid yr Alban, Isobel Lindsay o grwp 'Yr Alban dros Heddwch', a James Robb, cynghorydd SNP Helensburgh yn ymuno â nhw.

Cadarnhaodd Alan Mackinnon, cadeirydd CND yr Alban ac aelod o'r grwp, y byddai 'yn archwilio ffyrdd ymarferol ac effeithiol o atal lleoli arfau dinistr torfol newydd.' Mae cylch gorchwyl y gweithgor yn cynnwys ystyried swyddi amgen, cyfreithlondeb arfau niwclear a'r fframwaith trwyddedu a rheoli cyfredol. Disgwylir y bydd yn cwrdd rhyw deirgwaith y flwyddyn.

**www.banthebomb.org**




Edinburgh

ffoto: Jill Saunderson

# Vanunu'n dal i aros

**Ar Chwefror 19eg, cafodd achos llys Mordechai Vanunu ei ohirio eto. Yn 2007 cawsai ei ddedfrydu i wasanaeth cymuned am dorri gwaharddiad yn dyddio o 2004 ar siarad gyda thramorwyr. Fel roedd hi'n digwydd, doedd dim cyfleusterau gwasanaeth cymuned yn Nwyrain Jerwsalem felly byddai'n rhaid iddo ddychwelyd i'r llys. Mae Vanunu wedi byw yn ardal Balesteinaidd Jerwsalem ers cael ei ryddhau o Garchar Ashkelon ym mis Ebrill 2004.**

Mae pawb sy'n siarad gyda Vanunu yn Jerwsalem neu dros y ffôn neu drwy ebost yn gael eu monitro gan wasanaethau diogelwch-gwyliadwraeth Israel. Cafodd Almaenwr 21 oed ei restio ar noswyl Nadolig 2007 am ddim ond cael cinio gyda Vanunu. Mae ymateb Vanunu i ofnau llywodraeth Israel y bydd yn 'dweud cyfrinachau' wrth dramorwyr yr un fath bob tro: 'Cafodd yr holl gyfrinachau a oedd gennyf eu cyhoeddi ym 1989 mewn llyfr pwysig gan Frank Barnaby: *The Invisible Bomb: Nuclear Arms Race in the Middle East*.'

Cafodd Vanunu ei garcharu am 18 mlynedd am ddatgelu cyfrinachau ynglwn ag arfau niwclear Israel, ond yn awr, ni chaiff adael y wlad. Meddai: 'Am 18 mlynedd yn y carchar, teimlwn fel dyn mewn gorsaf reilffordd yn disgwyl am fy nhren. Bûm yn byw mewn gofod chwe troedfedd wrth naw heb ffenestr am 18 mlynedd. Bob dydd, byddwn yn codi ac yn gwisgo amdanaf, yn gwisgo fy sgidiau, yn edrych ar yr un pedair wal a disgwyl am y dren na fyddai byth yn dod . . . Yn awr, rwy'n byw mewn gofod naw wrth naw gyda phedair wal, mae gen i ffenestr ar Fynydd yr Olewydd a'r stryd. Ond rwy'n byw fel twrist heb gymaint â theledu mewn gwesty rhad, a'r cwbl rwyf am ei wneud yw ymadael â Jerwsalem. Dwi ddim yn disgwyl am dren bellach. Yn awr, rwyf yn y maes awyr yn disgwyl am fy awyren.'

Mae Siarter y CU yn dweud wrthym fod gan bawb hawl i ryddid barn a mynegiant: mae hyn yn cynnwys y rhyddid i goleddu barn neilltuol heb ymyrraeth, ac i geisio, derbyn a rhoi gwybodaeth a syniadau drwy unrhyw gyfryngau a heb unrhyw ffiniau.

**heddweithredu: Anfonwch gerdyn neu lythyr o gefnogaeth at Mordechai Vanunu, d/o Amnest Rhyngwladol, Human Rights Action Centre, 17-25 New Inn Yard, Llundain EC2A 3EA**

adolygiadau

## Blaenoriaethau Pwy?

### Whose Priorities?

### A guide for campaigners on military and social spending

Mae'r cyhoeddiad 73-tudalen yma yn gwneud yr union beth y mae'r clawr yn ei addo: mae'n glir ac yn hawdd ei ddarllen ac, fel y gobeithia Colin Archer yn ei ragarweiniad, mae'n ysbrydoliaeth. Mae'n gosod y llwyfan gyda gwybodaeth a chefndir, mae'r trafod y problemau o dan benawdau clir, yn rhoi enghreifftiau o ymgyrchu a rhwydweithio anghyffredin o bedwar ban y byd (hoff ddarn y darllenydd hwn) ac yna'n dadlau o blaid adeiladu rhwydwaith byd-eang cryfach o'r grwpiau cymdeithas sifil hynny sy'n ymgyrchu dros 'heddwch, cyfiawnder a materion yn ymwneud â hawliau dynol'. Mae yma adnoddau defnyddiol fel cysylltiadau gwe a llyfryddiaeth i'n gosod ar ben y ffordd.

Fel y noda'r llyfr, y tabw mwyaf i fudiadau cymorth yw gwariant milwrol. Hyd yn oed yma yng Nghymru, er ein bod ni sydd mewn grwpiau cymdeithas sifil yn tynnu 'mlaen yn iawn ar y cyfan, mae rhai o'n cydweithwyr yn y maes datblygu yn dal yn anghysurus weithiau ynglwn ag ymddangos ar yr un llwyfan â gweithredwyr dros heddwch a chyfiawnder. Gwir ystyr diogelwch i'r rhan fwyaf ohonom yw bywyd cyffredin, dwr glân, bwyd, gwres a lloches; cyfiawnder a'r rhyddid i siarad yn rhydd, cyfundrefn addysg ac iechyd. Ac eto, tra bod llywodraethau pwerus yn hyrwyddo syniadau fel 'rhyddid' a 'democratiaeth' â gwn yn eu dwrn, mae datblygiad gwirioneddol gynaliadwy yn amhosibl.

Beth sydd ei angen yn ein holl wledydd yw'r hyn y daw Colin i'r casgliad fod ei angen ar wledydd unebenaethol yn y 'byd deheuol' – gwell 'system ddemocrataidd . . . i wneud pethau'n fwy agored ac yn gyffredinol rhoi i gymdeithas sifil ryw swyddogaeth yn y broses benderfynu ac ymgynghori'.

Dydyn ni ddim yn dod o hyd i ddigon o amser i gamu'n ôl a dadansoddi beth rydym yn ei wneud fel ymgyrchwyr – mae 'Whose Priorities' yn cynnig cyfle i wneud hynny.

**Jill Gough**

**Whose Priorities? A guide for campaigners on military and social spending Colin Archer International Peace Bureau 2007 ISBN 92-95006-04-6 £5 a chludiant Cysyllter ag IPB +41 22 731 6429 mailbox@ipb.org www.ipb.org**

## Costau Dynol Cudd Trident

Cyfarwyddydd y Gwasanaeth Gwybodaeth Niwclear (SIS) yw un o awduron 7fed Papur Blackaby, *The Human Cost of Trident*, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2007. Wedi penderfyniad y llywodraeth a'r senedd Brydeinig ym mis Mawrth 2007 i sicrhau olynydd yn y man i'r llongau tanfor dosbarth-V (sy'n cludo taflegrau Trident), yn ogystal â pharhau i uwchraddio cyfleusterau dylunio ac ymchwil SAA Aldermaston, y mae bellach yn hanfodol dogfennu nid yn unig gost ariannol y rhaglen hon ond hefyd, ac yn fwy pwysig, y costau dynol ac amgylcheddol. Mae'r Papur Blackaby yma yn mynd i'r afael â'r materion allweddol hyn sydd heb gael eu pwysleisio yn y gorffennol.

**The Human Cost of Trident (£2.00 a 50c cludiad) o Abolition 2000 UK, 162 Holloway Road London N7 8DQ e: mail@abolition2000uk.org gw: www.abolition2000uk.org**

**CAFWYD!**
**arfau dinistr torfol***

**UDA: 10,640**
**Rwsia: 8,600**
**China: 400**
**Ffrainc: 350**
**Prydain: 200**
**Israel: 100-200**
**India: 30 - 35**
**Pakistan: 24 - 48**

***a dim ond arfau niwclear yw'r rheini*

## Cymerwch eich pwer yn ôl neu derbyniwch y bai



Mae CD newydd pwysig, 'Not in Our Name, Singing Out About the Wars in Iraq and Afghanistan', newydd gael ei gyhoeddi a ddylai fod o ddiddordeb i ddarllenwyr *heddwch*. Yn ei froliant, mae Tony Benn yn dweud: 'Mae Not in our Name yn cynnwys caneuon pwerus a theimladwy gan gantorion o Brydain, America ac Awstralia a fydd yn ysbrydoli'r miliynau ohonom, ym mhedwar ban y byd sy'n gwrthod y propaganda a'n harweiniodd i mewn i'r cyrchoedd hyll yn erbyn Irac ac Afghanistan fel rhan o "ryfel yn erbyn braw" a allai bara am genhedlaeth ac arwain at fwy o ryfel a mwy o farwolaethau.'

Mae'r CD yn cynnwys 15 o'r goreuon o blith artistiaid a bandiau o bedwar ban y byd. Mae'n cychwyn gyda chân ardderchog gan Eliza Gilkyson o'r enw 'Man Of God'. Gyda Bush mor uchel ei gloch am ei Gristnogaeth, dydy hi ddim yn anodd deall beth yw thema'r trac yma! Deuawd radicalaidd iawn o'r UD yw Emma's Revolution, ac mae eu cân, codePINK, yn gri wirioneddol am well byd.

Mae Leon Rosselson, Robb Johnson, Seize The Day a'r 'peiriant enaid un-dyn' Rory Mcleod yn dod â safon wirioneddol i'r cynnyrch. Does dim llawer o gerddorion wedi cael gyrfa mor faith a disglair, nac wedi creu'r fath gorff anferth o waith, â Roy Bailey (a roddodd ei MBE yn ôl i lafur newydd yn 2006 fel protest yn erbyn rhyfel Irac). Mae ei drac, 'Collateral Damage', gan yr gwron Jim Page sydd hefyd yn un o'r cyfranwyr ar y CD, yn cynnwys Martin Simpson ar y gitâr ac mae gyda'r caneuon mwyaf pwerus mae Roy wedi eu recordio erioed.


Mae Jez Lowe, trac deifiol gan Dick Gaughan am y rhai sy'n colli'r ffydd, Mark Erelli ac Amy Martin oll yn gwneud cyfraniadau anferth. Rhoddwyd Not In My Name at ei gilydd gan David Ferrard o Gaeredin, ac mae'n cynnwys un o'i ganeuon ei hun - Hills Of Virginia.

Mae'r holl elw yn mynd at Glymblaid Atal y Rhyfel. Mae hwn yn CD gwych ar gyfer achos gwych, a gellir ei brynu yng Nghymru gan Four Dogs Music am £10.99 yn cynnwys cludiant.

**Mike Newman**

**Prynwch ar-lein gan from www.fourdogsmusic.co.uk neu drwy'r post oddi wrth Four Dogs Music, Caegwyn, Temple Bar, Felinfach, Ceredigion SA48 7SA.**

## Henry Richard, 'Apostol Heddwch' - gwr ar gyfer ein hoes ni?





**Yn Haf 2007 cyhoeddwyd *The Life and Work of Henry Richard* gan D. Ben Rees. Mae'r gyfrol fechan hon yn parhau â'r mân adfywiad mewn diddordeb yn Richard yn y pum mlynedd ar hugain diwethaf, a gychwynnwyd gan David Morris a Bruce Kent, a welodd gyhoeddi pamffledi gan CND Cymru a Chymdeithas y Cymod, ac a ddilynwyd gan y cyn-AS Simon Thomas, John Gwynfor Jones, a Chymdeithas y Cenhedloedd Unedig Cymru, ymhlith eraill. Efallai fod Richard yn dal yn lled anadnabyddus, ond mae'n amlwg fod llawer yn y mudiad heddwch yn deimlo na ddylai'r cyfraniad a wnaeth yng nghanol a diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg gael bod yn anghof.**


Mae'r llyfr yn amlinellu'n effeithiol ei ddyddiau cynnar a'i yrfa fel heddychwr ac aelod seneddol, ac yn tanlinellu drachefn a thrachefn mai Cristnogaeth oedd y sail i'w gredoau. Bu'n Ysgrifennydd Cymdeithas Heddwch Llundain, yn ymgyrchydd egnïol a medrus a lwyddodd i ddwyn ynghyd wahanol grwpiau o heddychwyr o Brydain a gwledydd tramor. Yn AS dros Ferthyr Tudful, darbwyllodd Dw'r Cyffredin i gymeradwyo cytundeb ar gyflafareddu mewn sefyllfaoedd o wrthdaro; dadleuodd o blaid diarfogi Ewropeaidd ac ym 1886, cynigiodd y dylai senedd orfod cydsynio cyn y gellid mynd i ryfel.

Fodd bynnag, ni allaf dderbyn honiad D. Ben Rees fod ymdrechion Richard yn y senedd o blaid cyflafareddu wedi arwain yn uniongyrchol at sefydlu'r Llys Cyfiawnder Rhyngwladol. Yn fy marn hi, mae hyn yn fater o ddefnyddio doethineb drannoeth i ganfod patrymau mewn hanes nad ydynt yn bodoli. Gellir derbyn fod Richard wedi bod yn ddylanwadol mewn materion yn ymwneud â heddwch, ond mae'r llyfr yma hefyd yn hawlio iddo deitl 'Yr Aelod Seneddol dros Gymru', a fyddai'n dehongli Cymru i Loegr, ac a gefnogai gyffroadau cynnar Cymru Fydd. Mae D. Ben Rees yn ei alw'n 'Amddiffynnydd y Ffydd Anghydffurfiol' hefyd, ymgorfforiad Rhyddfrydiaeth Fictoraidd ac ymgyrchwr dros ryddfreiniad y dosbarth gweithiol. Does bosib y gallai fod wedi bod yn ddadleuwr mawr ei amlygrwydd dros yr holl achosion hyn, neu mi fyddai wedi cael mwy o sylw nag y mae wedi ei gael.

Felly, roedd Richard yn gydwladolwr pwysig a oedd, o bosib, yn haeddu cael ei alw'n 'heddychwr mwyaf y 19eg ganrif'. Ond nid wyf wedi fy argyhoeddi y gall gweithredwyr heddiw ddysgu llawer gan ei ymdrechion, ar lefel ymarferol, wedi'r holl amser yma. Yn sicr, mae'n ysbrydoliaeth, ond nid yw'n cynnig glasbrint clir ar gyfer gweithredu.

**Stephen Thomas**

**The Life and Work of Henry Richard: Apostle of Peace and MP for Wales £3 Spokesman Books, Bertrand Russell Peace Foundation, Nottingham t: 0115 970 8318 www.spokesmanbooks.com**



ffoto: jill gough

Bedd Henry Richard
Mynwent Abney Park, Llundain

# dyddiadau dyddiadur

**Mawrth 20fed 1.30pm BAE Systems Glascoed, Sir Fynwy** Gwylnos Weddi y tu allan i brif glwyd Ffatri Arfau BAE Systems ger Monkswood [ar ffordd yr A472 Brynbuga-Pontypwl] i dystio ac i hyrwyddo datrys gwrthdaro drwy ddulliau heddychlon, di-drais. Dewch blodau i'w gosod ar y ffens er cof am bobl a laddwyd gan arfau rhyfel. Trefnwyd gan Rwydwaith Cristnogol Penarth o'r Ymgyrch i Ddoleu'r Fasnach Arfau. Cysyllter â t: 02920 711 943

**Mawrth 24ain 12.00pm Aldermaston, Berkshire, Lloegr. Gwrthdystiad 'Mae'r Bom yn Stopio Yma!'** Dewch i amgylchynu'r ffatri fomiau . Hanner canmlwyddiant yr orymdaith gyntaf i Aldermaston. www.cnduk.org

**Mawrth 28ai- 29ain Llundain, Yr Amgueddfa Ryfel Ymerodrol. Hanes Heddwch: Cynhadledd am Bobl, Gwleidyddiaeth a Diwylliant** Canolbwyntir ar benodau ac unigolion o wahanol amserau a llefydd – gan grynhoi ysbrydoliaeth o'u hesiampl nhw i adeiladu strwythurau heddwch ar gyfer heddiw ac yfory. Trefnwyd gan y Biwro Heddwch Ryngwladol a'r Mudiad er Dileu Rhyfel. Cofrestru: £30 am y ddau ddiwrnod, £25 am ddiwrnod, Myfyrwyr £15 a £10. Am fwy o fanylion, anfoner amlen wedi ei chyfeirio a'i stampio at: MAW Conference, 11 Venetia Road, Llundain N4 1EJ neu www.abolishwar.org.uk

**Mawrth 29ain 3pm Y Deml Heddwch, Caerdydd. Cyfarfod yr Ymgyrch yn erbyn Academi Filwrol Sain Tathan** www.cynefinywerin.org

**Mawrth 29th Slupsk, Gwlad Pwyl. Gwrthdystiad Rhyngwladol yn erbyn Canolfannau Milwrol yr UD yng nghanolbarth Ewrop. Na i'r System Amddiffyn yn erbyn Taflegrau!** Mae'r Ymgyrch yn erbyn Militariaeth, Pwyliaid o Blaid Refferendwm, Ffederasiwn yr Anarchwyr a grwpiau eraill yn galw am wrthdystiad mawr yn erbyn cynllun yr UD i leoli 10 dyfais ryng-gipio taflegrau gwrth-falistig ar dir Gwlad Pwyl. Mae theatr stryd, band samba, meic agored ar gyfer trafodaethau mewn sgwariau cyhoeddus, bwyd nid bomiau, dangos ffilmiau ynglwn â'r taflegrau ac ar bwnc militariaeth ymhlith y gweithgareddau sy'n cael eu trefnu. Mae dinas Slupsk yn agos at arfordir y Môr Baltig. Bwriedir lleoli canolfan yr US ar yr hen faes awyr Sofietaidd yn Redzikowo, 4 km. o Slupsk. http://www.m29.bzzz.net/

**Ebrill 1af Dydd Fful Ffosiliau** Diwrnod o Weithredu Uniongyrchol yn erbyn newid hinsawdd, wedi ei alw gan Rwydwaith Rhyngwladol y Llanw'n Codi . . . dewch i ymuno â ni. www.fossilfoolsday.org/9620

**Ebrill 2il Protest yn uwch-gynhadledd NATO yn Bucharest, Romania** Bydd penaethiaid llywodraethau NATO yn cwrdd yn uwch-gynhadledd NATO yn Bucharest ar yr 2il-4ydd i wneud penderfyniadau pwysig ynglwn â thrawsffurfio NATO, amddiffyn taflegrau, ac Afghanistan. Bydd y gwrthwynebiad i NATO yn amlwg – dewch i ymuno ynddo. e: tarcza@bzzz.net

**Ebrill 25th 7.30pm Stiwdio 2, Galeri, Caernarfon. Ffilmiau am newid: Bamako.** Trefnwyd gan Ymgyrch Gydgadernid Cymru Nicaragua, Sylfaen a Cymru Cuba. e: benica@gn.apc.org

**Ebrill 25ain-Mai 4ydd 2008 Genefa - Ail Bwyllgor Paratoadol ar gyfer Cynhadledd Adolygu'r Cytundeb Atal Ymlediad 2010** yn y CU yn Genefa. Mae BANG (Grup ieuenctid Ewropeaidd) yn trefnu gweithdai ieuenctid a digwyddiadau gweithredu. Cysylltwch â nhw yn: www.bang-europe.org

**Ebrill 26ain Caerdydd 11.00am – 1pm Cyngor CND Cymru** (cyfarfod busnes). Am fwy o fanylion t: 01495 773 180

**Ebrill 26ain Pob man – Dydd Chernobyl (22 flynedd wedi damwain niwclear waetha'r byd)**

**Ebrill 26ain – Gorffennaf 16eg Taith Gerdded Llundain – Genefa** Taith gerdded ryngwladol dros fyd di-niwclear. www.footprintsforpeace.net

**Ebrill 26ain Caerdydd Na i Academi Filwrol Sain Tathanymgynnull 1.30pm ar gyfer 2pm,** Protestwyr yn erbyn yr academi filwrol i gwrdd ar y lawnt gyferbyn â Neuadd y Ddinas. Gorymdaith drwy Gaerdydd. Gweler www.cynefinywerin.org

**Mai 12th CAT, Machynlleth. Fforwm Flynyddol Cyfanfyd** Newid Hinsawdd ac Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Siaradwyr gwadd, cyfle i rwydweithio, ac arolwg o'r gwaith ym meysydd dysgu gydol oes, gwaith ieuenctid byd-eang a'r sector ffurfiol. e: info@cyfanfyd.org.uk

**Mai 26ain-31ain Eisteddfod yr Urdd, Llandudno** Angen help gyda stondin CND Cymru. Cysylltwch â ni ar t: 01495 773 180

**Mehefin 17eg 8pm Neuadd Gymuned Llanfoist, ger y Fenni** Cyngerdd 25 mlwyddiant Cerddorion yn erbyn Arfau Niwclear (MANA). Cerddoriaeth werin a chyfoes a chaneuon gwleidyddol gyda chôr *a capella*, unawdwyr, sacsoffonyddion a llawer mwy! Sarah Harman t: 01873 890 616

**Mehefin 21st 8pm Neuadd y Dre, Dinbych** ***Sierra Maestra*** **–** prif fand Salsa Cuba. Trefnwyd gan Cymru-Cuba t: 01745 813 402

**Gorffennaf 19eg 11.00am Aberystwyth, Cyngor CND Cymru.** Am fwy o fanylion t: 01495 773 180

## cnd cymru contacts

**chair:**
Jill Evans MEP
01824 709 700
jievans@europarl.eu.int

**vice chairs:**
Brian Jones
01792 830 330
jonebri.nptc@webmail.digitalbrain.com

Olwen Davies (mid Wales)
01970 611 994

Llew Smith

George Crabb
01446 774 452

Ray Davies (south Wales)
(029 20) 889 514

John Cox
01495 773 495

**membership & affiliations:**
CND Cymru Membership
9 Primrose Hill,
Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth,
SY23 3SE

**trading:**
Kate Gwynfyd-Sidford &
Del Gwynfyd-Harris
coney@gn.apc.uk
01974 831 575

**treasurer:**
Chris Edmondson,
3 Mountain View,
Llanfoist, Abergavenny
NP7 9YA
01873 853 094
chris.edmondson@alligin.net

**national secretary & heddwch editor :**
Jill Gough, Y Drain Gwynion, Heol yr Eglwys, Talywaun,
Pontypool NP4 7EF
01495 773 180
heddwch@cndcymru.org

**Mae CND Prydeinig wedi cynhyrchu pecynnau addysg (Saesneg yn unig) ar gyfer ysgolion. Ar gael gan y Swyddog Addysg, Anna Liddle: peaceeducation@cnduk.org**

## *Galw ar bob Conshi!*

Bydd pobl yn aml yn gofyn i fi, fel Archifydd y Peace Pledge Union, a oes yna gofrestr swyddogol o'r 86,000 o ddynion (a rhai menywod) Prydeinig a fynnodd weithredu eu hawl i beidio â lladd drwy wrthwynebu'n gydwybodol i orfodaeth filwrol yn y ddau Ryfel Byd a'r cyfnod wedi 1945. Does dim cofrestr o'r fath yn bodoli, ac mae'r rhan fwyaf o gofnodion y llywodraeth yn ymwneud ag achosion unigol wedi cael eu dinistrio.

Er mwyn llenwi'r bwlch a chreu cofnod hanesyddol parhaol, rwyf wrthi'n creu cronfa ddata yn cynnwys cymaint o wrthwynebwyr cydwybodol ag y gallaf eu holrhain. Mae gennyf 6,000 hyd yn hyn, wedi eu rhannu'n weddol gyfartal rhwng y ddau gyfnod gorfodaeth, a manylion amrywiol o fewn y cofnodion, ond mae 80,000 arall ar ôl i ddod o hyd iddynt. Dyma lle gall darllenwyr Heddwch helpu. Os oeddech yn wrthwynebydd cydwybodol, neu os oedd gennych berthynas neu ffrind a oedd, a allech chi anfon y manylion sylfaenol ataf a chyfeiriad cysylltu. Byddaf yn creu cofnodion newydd, neu'n ychwanegu manylion at rai sy'n bod eisoes, ond byddaf hefyd yn cadarnhau fy mod wedi derbyn y wybodaeth ac efallai'n gofyn cwestiwn neu ddau.

**Bill Hetherington**

**ebost: archives@ppu.org.uk**
**Bill Hetherington, PPU, Peaceworks, 1 Peace Passage, Llundain N7 0BT**


**Pe gallai Cymru wario mwy na £1 biliwn**

***naill***

**ai ar system Trident Brydeinig* newydd**

***neu***

- **atal cau ysbytai**
- **lleihau rhestri aros y GIG**
- **bod â deintydd ym mhob tref**
- **rhoi i ysgolion yr adnoddau a'r athrawon sydd eu hangen arnyn nhw**

***Beth fyddai'ch dewis chi?***

* amcangyfrifir y bydd yn costio £25-40 biliwn

Llais cry' drosoch **CHI**: ***Ymunwch ag CND Cymru***

enw:..........................................
cyfeiriad:..........................................
..........................................côdpost:....................
teleffôn:.......................... ebost ..........................

**Amgaeaf siec/ AB am £** **Yn daladawy i *CND Cymru***

☐ £30 pâr cyflogedig ☐ £15 digyflog
☐ £20 oedolyn ☐ £10 digyflog, pensiynwyr, ieuenctid a myfyrwyr

**Dychweler i Aelodaeth CND Cymru (gweler uwchben)**